



Llais y Llan Hydref 2019

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 24th Tachwedd 2019

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol


www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Llais y Llan

leir Fach yr Haf yn Medi – Trilliwr Bach



Mantell Dramor




Dewinwyr wrth y Maen Hir yn Llangydeirn



Gorchudd newydd Y Rhandir



Dargyfeirio heol Y Graig - Ar gau am bum diwrnod o Hydref 28ain



**Swper Caws a gwin,
Cheese and wine
supper**

B I N G O


**£6
plus bingo tickets**

**30 November/ Tachwedd
6.30pm**

**Neuadd Llanllawddog
Llanllawddog Church Hall.
Canu canauon Nadolig
Christmas sing-a-long**

Tickets from church members

Darnau o Lyfr Cownt Y Gymdeithas Nyrsio leol



*Llanpumpaint. Dist 4.
Collection. T Jones Llwynneilyn
Glynur Jones, Penbontbren.*

1938.

Mr Tom Jones, Waun	5 0
" Joseph Davies, Bryn	10 0
" Ed J. Jones, Hwchgwi	5 0
" Owen Jones, Llwynnorchyddod	5 0
" James, Mill Farm	10 0
" G. Jones, Penbontbren	5 0
" J. Jones Llwynneilyn	5 0
" Thomas, Pantillyn	10 0
Miss M. Howells, Pencilgan	5 0
Mr Tom Jones, Eger x allgareidig	10 0
Mr J. Thomas Pont ar Sais P.O. d. Hwllw.	5 0
" Abel Rees " " " J-ddog.	5 0

Dyma beth yw whompen!



Y llwybr at gopa Penylan.



Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo pob Nos Llun a pob Nos Iau 7.30 – 9.30 Neuadd Goffa
Cylch y Pentref Dydd Mawrth Yn yr Eglwys 2.00 – 3.30
Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643
Noson 'Fitness Fun' Nos Fawrth 6.30 Neuadd Goffa £4
Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd (o Fedi 12)
Llyfrgell Deithiol - pob Dydd Mercher 10.45 – 11.45, Neuadd Goffa Ffôn 01267 224830
Gwasanaeth Swyddfa Bost ar dydd Gwener 11.15 – 12.15 Neuadd Bronwydd
Gwasanaeth Swyddfa Bost ar dydd Mawrth 2.00 - 4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 Bryn y Wawr
Merched y Wawr Trydydd Nos Llun o'r Mis yn y Neuadd Goffa
Ail fore Sadwrn bob mis -Y Farchnad Fisol, 10.00 – 12.00 Neuadd Eglwys Llanllawddog
Ti a Fi pob Bore Gwener 10.00 - 12.00 Neuadd Bronwydd
Hydref 9 Nos Fercher 7.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd 01267 253643
Hydref 12 Nos Sadwrn 7.00 Olly Murs (Tribute) Neuadd Goffa
Hydref 15 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5 y pen Tafarn Rheilffordd
Hydref 15 Nos Fawrth Cwis Rotary Club Football Club Caerffyrddin
Hydref 16 Dydd Mercher 10.00 Clinig Traed Neuadd Goffa
Hydref 16 Dydd Mercher 3.30 – 5.00 Eglwys Agored Llanpumsaint
Hydref 23 Nos Fercher 7.30 Cyfarfod Agored Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru Neuadd Goffa
Hydref 27 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd
Hydref 28 Dydd Llun 2.00 Clwbgwili 60+ Neuadd Bronwyddos
Hydref 28 Nos Fawrth Dathlu'r 40 gyda Swper ac Adloniant yn Neuadd Llanpumsaint
Tachwedd 4 – 8 Pum diwrnod o Dwrci a Thinsel Clwbgwili 60+
Tachwedd 6 Nos Fercher 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa
Tachwedd 10 Dydd Sul 10.45 Gwasanaeth Coffa Cymunedol Neuadd Goffa
Tachwedd 11 Dydd Llun 3.30 – 5.00 Eglwys Agored Llanpumsaint
Tachwedd 13 Nos Fercher 7.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd 01267 253643
Tachwedd 16 Dydd Sadwrn 2.00 – 5.30 Ffair Nadolig Neuadd Bronwydd Ffôn Jean 234868
Tachwedd 19 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5 y pen Tafarn Rheilffordd
Tachwedd 20 Taith Siopa Nadolig Cribbs Causeway Clwbgwili 60+
Tachwedd 24 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd
Tachwedd 24 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Hollybrook
Tachwedd 25 Dydd Llun 2.00 Clwbgwili 60+ Neuadd Bronwydd
Tachwedd 27 Nos Fercher 7.00 Digwyddiad codi arian Band Ukelele Tafarn Hollybrook
Tachwedd 30 Nos Sadwrn 6.30 Swper Nadolig & Bingo Neuadd yr Eglwys Llanllawddog
Rhagfyr 7 Dydd Sadwrn 11.00 – 2.00 Ffair Nadolig – Neuadd Goffa
Rhagfyr 11 Dydd Mercher taith Ddirgel am Ginio Nadolig Clwbgwili 60
Rhagfyr 11 Dydd Mercher 10.00 Clinig Traed Neuadd Goffa
Rhagfyr 12 Dydd Iau 3.30 – 5.00 Eglwys Agored Llanpumsaint
Chwefror 1 Nos Sadwrn Cyngerdd Côr Llanpumsaint Capel Tabernacl

I logi'r Neuadd Llanpumsaint, Ffoniwch Celt ar 07944793133 neu Llanpumsaintmemorialhall@gmail.com

Siop Gymunedol - Y diweddaraf

Daeth nifer o bentrefwyr at ei gilydd i drafod y syniad o sefydlu siop gymunedol. Trefnwyd rhestr faith o'r holl fydd angen ei wneud, llefydd i ymweld a nhw, pobl i'w gweld a phentwr i waith papur. Y gobaith yw y bydd astudiaeth dichonogol yn cadarnhau gobeithion y gymuned; hynny yw, y gefnogaeth gan gwsmeriaid, parodrwydd gwirfoddolwyr, a'r holl fanteision all ddod o'r fath fenter. Mae'r Arolwg wrthi ar hyn o bryd, felly gnewch yn siwr eich bod yn barod i ymateb ac yn cymerid rhan yn yr ymgynghoriad pan ddaw. Rydym yn awyddus iawn i wybod shwd i chi'n ymateb a pha syniadau sydd gennych.

Felly mae 'na lawer yn mynd mlaen y tu hwnt i'r llenni, a byddwn yn adrodd yn ol yn gyson yn Llais y Llan. Os ydych yn awyddus i fod yn rhan o'r Gweithgor yna cysylltwch gan roi eich Ebost. Heblaw hynny cadwch eich llygaid ar agor am ddatglygiadau.

Cysylltydd Rosie Frewin - Rosie.Frewin@yahoo.co.uk

Neuadd Goffa Llanpumsaint & Ffynnonhenri Memorial Hall

Brics Codi Arian

A hoffech chi brynu bricsen i roi ar y wal tu fewn i'r Neuadd? Rydyn ni nawr yn derbyn archebion. Mae angen pump archeb arnom ni, cyn i ni fedru prynu'r brics. Pris y brics yw £50 yr un. Am fwy o wybodaeth a ffurflen archeb cysylltwch â Donna Thomas ar 07854072195.

Tribute Night - Mae nifer bach o docynnau ar ôl i'r noson. I archebu tocyn cysylltwch â Donna Thomas ar 0785407195. Pris tocyn bydd £12.50 yr un. Drysau i agor am 7yh. Nifer cyfyngedig o docynnau ar ôl.

Cór Llanpumsaint a'r Cylch

Mae'r Cór yn awr wedi ail ddechrau ar ôl seibiant haeddiannol dros yr haf ac yn dechrau ar flwyddyn bwysig iawn yn eu hanes. Eleni mae'r Cór yn dathlu eu penblwydd yn 40. Dechreuwyd y Cór ar Hydref 29ain 1979 yn Neuadd Goffa Llanpumsaint gyda rhyw 25 o aelodau. Ar hyn o bryd mae'r aelodaeth tua 50 ond er hyn yn dal i chwilio am ragor o aelodau. Fel y gwyddoch yr ydym yn cwrdd bob nos Iau yn Neuadd Gymunedol Cynwyl Elfed am 7.45 p.m. Os oes diddordeb gyda unrhyw un i ymuno a ni cysylltwch a Gwyn Nicholas neu unrhyw aelod o'r Cór.

Dyma rhestr o'r digwyddiadau a fydd yn digwydd yn ystod 2019/20

- | | |
|-----------------|---|
| Hydref 29 2019 | Dathlu'r 40 yn Neuadd Llanpumsaint gyda Swper ac Adloniant. Tocynnau i'w cael oddiwrth aelodau'r Cór. |
| Rhagfyr 7 2019 | Cyd ddathlu mewn Cyngerdd Nadolig yn Neuadd Bronwydd gyda mudiadau eraill yn yr ardal sydd hefyd yn dathlu eleni sef Aelwyd Hafodwennog 40 blynedd, C.F.F.I. Penybont 70 blynedd ynghyd a Chór Llanpumsaint a'r Cylch 40 blynedd
Bydd elw'r cyngerdd yma yn mynd tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. |
| Chwefror 1 2020 | Cyngerdd Blyneddol yng Nghapel y Tabernacl Caerfyrddin gyda Rhodri Prys Jones, Steffan Jones, Guto Jenkins a Gwen Morris. Yr organydd eleni eto fydd Jeffrey Howard. |
| Mawrth 27/30 | Taith / Cyngerdd i ardal Brighton i gyngerdd ar y cýd gyda Chór Andrew Rees , cyn-aelod o'r Cór. |

Rhaglen Gweithgareddau Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Llanpumsaint

Rhagfyr 7fed -- Ffair Nadolig -- Neuadd Goffa - 11yb hyd 2yp

I agor am un-ar-ddeg y bore mi fydd yna amrywiaeth o stondinau gan y cyhoedd a'r Ysgol ynghyd a lluniaeth. Gobeithiwn eich gweld yno unwaith eto ac y byddwch yn mwynhau. Os am osod standin yna cysylltwch ag Emma Brown 07773034461 neu brown6b@btinternet.com <<mailto:brown6b@btinternet.com>>

Codi Arian yn haws -- Os ydych yn siopa ar y We gallwch helpi' godi arian i'r Gymdeithas drwy gofrestru yn www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta neu gysylltu ag Emma Brown. Os oes 'na rywun yn gallu hawlio £4E/matchfunding drwy eu gwaith ac yn barod i gefnogi'r Gymdeithas Athrawon/Rhieni i wneud cais yna rhowch wybod i Becky James 01267 253560

Clwb Gwili Chwedeg Bronwydd

Gwelwyd 54 aelod yn bresennol yn y Cyfarfod Blynnyddol eleni, pan ail-etholwyd pob swyddog am dymor arall. 'Roedd yna sawl aelod newydd hefyd. Dywedodd y Cadeirydd Peter Giles fod y Clwb wedi bod ar bedair gwibdaith eleni gydag un arall i Cribbs Causway Bryste yn dod yn Dachwedd. Bydd y Cinio Nadolig yn dilyn taith ddirgel yn Rhagfyr. Bydd pawb yn edrych ymlaen yn awchus at daith pum diwrnod o Dwrci a Thinsel sy'n mynd i Gei Newydd Cernyw eleni.

Cyfarfodydd

Llun 28ain Hydref - 2yp – Gareth Richards – Blas o ddanteithion yr Hydref

Llun 25ain Tachwedd - Ralph Carpenter - Lluniau'r Wasg – Achlysur arbennig gan un o'n haelodau.

Nid oes cyfarfod yn Rhagfyr ar wahân i'n Cinio.

Croeso i aelodau newydd – Y tal yw £7.50 – Cysylltydd Val Giles – Ysgrifenyddes o1267 281194.

Pwyllgor Lles a Hamdden Llanpumsaint

Bore Coffi Elusen Macmillan. Er ymateb siomedig y cyhoedd llwyddwyd i godi £245 at yr Achos da hwn. Diolch i Rees Electrics am noddi'r achlysur a diolch i bawb am y cacennau a'r gwobrau raffl.

Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa

Cafwyd ymateb gan dri chwmni am osod cyfarpar newydd a lloriau diogel i'r Lle Chwarae. Arhoswn nawr am amcangyfrî'r gost cyn gwneud ein cais. Lyn Evans

Cymdeithas Rhandiroedd Llanpumsaint

Bu heulwen Haf Bach Mihangel Medi yn fodd i ymestyn y tymor tyfiant. Anffodus fu hi felly i ni drefnu ein diwrnod o gymhennu a chomopo'r safle ar ddiwrnod gwlyb. Wrth lwc nid oedd y glaw mor ddrwg â hynny felly fe wnaed jobyn da o baratoi'r safle gogyfer a'r gaeaf. Cyn hynny gyda diolch i Gronfa fferm Wynt Brechfa gosodwyd ein gorchudd newydd yn ei le, fel y gwelwch yn y llun.

Wrth gwrdd â chyfaill o arddwr yn ddiweddar sylwais fod yna sawl cwt cas ar ei dalcen. Eglurodd i'w wraig ei annog i wisgo het wrth adael am ei randir un bore, ond gan ei bod yn fore mwyn anwybyddodd ei chngor.

Wrth fynd heibio adeilad oedd yn cael ei adnewyddu chwythwyd nifer o diwbiau golau trydan ato, ac mi darodd nifer ohonynt ef ar ei ben. Wedi dychwelyd adre ac egluro'r hyn ddigwyddodd i'w wraig, medde hi "Wedes i wrthyt ti am bido mynd mas heb het!". Gofynnodd wedyn shwd o'dd hi wedi gallu rhagweld y ddamwain. Ymateb y wraig oedd bod dyn y tywydd wedi gweud y byddai "Light Showers" yn yr ardal.

Os am ymuno a'r Gymdeithas cysylltwch â Keith 263375 neu Ray 253157.

Clwb Bowlio Dan-do Llanpumsaint a Nebo

Yn y Cyfarfod Blynnyddol yn y Neuadd ar y 29ain o Awst etholwyd y swyddogion canlynol.

Cadeirydd - Derick Lock. Ysgrifenyddes - Jill Edwards. Trysorydd - Gethin Edwards. Archwilydd - Huw Williams. Capten - Aled Edwards. Is-gapten - Peter Giles. Lluniaeth - Jill Edwards. Swyddogion Diogelu Plant - Derick Lock a Huw Williams.

Daeth buddugoliaeth dros Lanboidy Ac yn y gêm gynta' ac mae rhaid cydnabod camp ein Triawd, Huw Williams, Patrick Thacker a Chatrin Williams am ennill o 18 i 1.

Llongyfarchwn Gethin ac Aled Edwards ar eu hethol i Ddim Cymru fydd yn cystadlu yn y Bencampwriaeth Brydeinig yn Aberdeen dros benwythnos 16eg a'r 17eg o Dachwedd. Mae Aled hefyd yn haeddu canmoliaeth am ennill Tlws Efydd yng nghystadleuaeth SMPT Iwerddon yn Belfast ym mis Medi. Gwnaeth yn arbennig o dda i gyrraedd y brig ymysg 234 cystadleuydd o ddeg gwahanol wlad.

Cofiwch edrych ar ein gwefan Llanpumsaintsmbc.org.uk am y wybodaeth ddiweddaraf gyda chanlyniadau ac ati. Rydym yn cyfarfod yn y Neuadd bob Nos Lun a Nos Iau o 7.30 tan 9.30, a hynny hyd ddiwedd Ebrill.

Croeso i chwaraewyr newydd rhwng 11 a 99 oed, ac mae gyda'm hyfforddwyr profiadol wrth law i estyn cymorth. Gwybodaeth bellach oddi wrth y Cadeirydd Derick Lock 01267 253524 neu'r Ysgrifenyddes Jill Edwards 01267 253474

Cymorth I Uganda

Ar Nos Fawrth 15fed o Hydref bydd Clwb Rotari Caerfyrddin yn cynnal cwis i gefnogi ymgyrch Cymorth I Uganda. Clwb Peldroed Caerfyrddin fydd y lleoliad i ddechrau am saith o'r gloch yr hwyr, gyda Bar ac ychydig ddanteithion rhad.

Codir £10 am bob tim, ac mi fydd yna wobrau gyda Thlws i'r pencampwyr.

Dewch i gefnogi'r achos da hwn, sy'n hyrwyddo hyfforddiant ac adonddau i staff meddygol yn Uganda.

Os nad ydych yn cystadlu dewch i gefnogi a mwynhau'r noson beth bynnag.

Nid oes angen cofrestri ymlaen llaw - trowch lan!

Dringo Pen y Fan

Fe netho'n ni fel! Cyrraedd y copa ar y 14eg o Fedi at achos da'r Gymdeithas Alzheimer. Diolch i bawb wnaeth gefnogi'n Parti Te ac i bawb wnaeth fy noddi. Codais £700 i gyd at elusen haeddiannol. Mae goresgyn clefyd mor greulon yn flaenoriaeth i ni gyd. Carolyn Smethurst.

LPG - Amser adnewyddu Cytundeb

Mae MPG Compare yn gorff cymharol annibynnol gyda gwasanaeth cyfnewid sy'n arbenigo yn y farchnad LPG swmp. Drwy ddefnyddio eu gwybodaeth gynhwysfawr o fewn y diwydiant LPG gallant awgrymu pris cystadleuol i chi. Y pris targedol ar hyn o bryd yw 37 i 41 ceiniog y litr. 'Rwy'n cysylltu â nhw bob tro y byddaf yn ystyried prisiau LPG gyda'm cyflenwyr. Os am wybod faint allwch arbed galwch 01384883009 neu ewch i www.1pgcompare.co.uk <<http://www.1pgcompare.co.uk>>

Newidiadau i'r Cynllun Teithio Rhatach

Bydd pob Tocyn Cynllun Teithio Rhatach ac Anabl yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn, sef 31ain o Ragfyr 2019. O'r 11eg o Fedi ymlaen gall y defnyddwyr presennol wneud cais am eu Tocyn newydd. Ewch i www.tfw.wales/travelcards <<http://www.tfw.wales/travelcards>> - yna dewiswch Dros 60 neu Anabl, cliciwch Adnewyddu gan lenwi eich manylion. Bydd angen eich deunaw rhif o'ch carden bresennol, dyddiad geni, cod post a'ch rhif yswiriant cenedlaethol. Os oes rhywun arall yn gwneud i gais drosoc'h gwnewch yn siŵr fod y manylion hyn oll ganddynt. Ceir mwy o wybodaeth o <https://1/tfw.gov.wales/QandA>

Dirgelwch Oesol

Mae 'na ddau ddirgelwch dwy fyth wedi canfod! Falle fo chi 'run peth felly 'dwy ddim ar ben fy hun. Mae'r cyntaf yn ymwneud a'r holl focsys plastig sy'n llenwi ein cypyrddau. Bob nawr ac yn y man o'u tynnu allan ceisiaf gael y cloriau i ffitio, gan waredi'r rhai nad oes eu hangen. Felly wedi cael pob clawr i gau pob bocs ni ddylai darnau diangen fod ar ôl. Ond 'does dim parhad, ac o agor y cwpwrdd unwaith eto ni allaf ddod o hyd i'r clawr iawn i'r bocs mewn llaw. Shwd gall hyn ddigwydd o hyd ac o hyd?

Yr ail ddirgelwch mawr yw'r drâr yn llawn sane unigol. Chi'n gwybod fel mae, wedi gwisgo par o sane chi'n eu rhoi yn y fasged ac yna miwn i'r peiriant golchi. Pan ddônt mas di nhw ddim yn bar! Beth ddigwyddodd? Dirgelwch!

Clwb Cant Llanpumsaint

Dyma enillwyr y tri mis olaf

Gorffennaf £20 - Rhif 35 - Mandy Jameson. £15 - Rhif 97 Ann Wyke. £10 - Rhif 72 Carolyn Atkinson.

Awst £20 - Rhif 76 Chris a Jayne Hughes. £15 - Rhif 34 Vi Robinson. £10 - Rhif 11 Mr Smith.

Medi £20 - Rhif 99 Dave Houghton. £15 - Rhif 74 Ian Years. £10 - Rhif 50 Nirvina Davies.

Prynwyd Rhif 101 gan Liz Rees Y Railwe - croeso Liz! Mae Rhifau 113 - 120 ar gael o hyd.

Derick Lock Trysorydd 253524.

Mwy o sgams

Bu yna nifer o straeon unwaith eto yn y wasg am scamwyr yn twyllo a dwyn arian oddi wrth bobl ddiniwed. Maent yn hoff o dargedu'r bregus. Ond yn ddiweddar twyllwyd eraill gan gynnwys rhai enwog yn ôl y teledu. Mewn un enghraifft daeth galwad ffôn honedig o'r Banc wnaeth dwyllo'r unigolyn i golli miloedd o bunnoedd. Rhoddodd fanylion ei gyfrif dros y ffon ac mi wnaeth y lladron ddwyn pob dine o'r cyfri. Maent yn gyfrwys ac yn dosbarthu'r arian dros wahanol fanciau, nifer ohonynt yn dramor.

Felly cofiwch hyn. Ni fydd y Banc fyth yn eich ffonio ac ni fyddant fyth yn gofyn i chi drosglwyddo arian i gyfri arall. Ni fydd HMRC na BT na'r Heddlu fyth yn eich ffonio. Cofiwch!!

Gall y llais ar ben draw'r ffon swnio'n swyddogol, cyfeillgar a gwybodus, ond twyllo am arian yw eu nod bob tro. Byddwch yn wiliadwrus o alwadau annisgwyl a diarth.

Peidiwch fyth a rhannu gwybodaeth bersonol neu ariannol dros y ffon neu ar y We hyd yn oed os yw'n swnio'n iawn ar y pryd. Wrth drafod gyda'ch Banc mi ofynna'n nhw am ran o'ch cyfrinair ond fyth am yr un llawn. Felly os daw galwad honedig o Fanc anwybyddwch e' a rhowch y ffon i lawr. Arhoswch am ryw ugain munud neu fwy (rhag ofn i'r twyllwr fod ben arall y lein o hyd) ac yna ffoniwch eich Banc iawn i egluro'r hyn sydd wedi digwydd.

Un sgâm arall o'r gorffennol. Mae'r twyllwyr yn hoff o dargedu pobl ar wyliau. Wedi hacio'r E-bost a dwyn y rhestr o gysylltiadau, anfonwyd negesau i'r ffrindiau hynny yn gofyn iddynt drosglwyddo arian oherwydd eich bod mewn trafferthion mawr rhywle dramor. Celwydd i gyd! Os wneith rhywun ymateb bydd y sgamwyr yn mwynhau gwyliau bach net eu hunain.

Gwyddom fod y wybodaeth uchod yn weddol hysbys i bawb, ond byddwch ar ddihun, byddwch yn ofalus a chadwch lygad agored i warchod eich cymdogion a 'ch cyfeillion. A chofiwch hefyd fod y rhan fwyaf ohonom yn hollol ddiwyll. - Oddi wrth eill cyfaill cyfrifiadurol Dave.

Hynod o beth y diwrnod wedi derbyn yr uchod wrth Dave gefais alwad ffôn, honedig o HMRC yn fy ngwahodd i gysylltu â <https://tax.refund-ref623.com/to process er mwyn derbyn fy ad-daliad>. Darllenais y neges sawl gwaith cyn sylweddoli nad oedd hwn yn gyswllt cywir o HMRC. Os am gysylltu â'r awdurdodau cywir ynghyn a'ch materion treth yna ewch <https://www.gov.uk/personal-tax-account>

Mae hon yn safle diogel a phersonol sy'n crynhoi eich holl faterion treth dan un to. Yma gallwch newid eich taliadau neu godi unrhyw gwestiwn sy'n eich poeni, fel dyddiad eich tal nesaf neu rywbeth arall. - Carolyn

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi lansio tudalen Facebook!

Yma yn swyddfa'r Comisiynydd, rydyn ni'n dathlu'r ffaith ein bod ni'n byw bywydau hirach ac iachach, ac rydyn ni'n deall pwysigrwydd ychwanegu bywyd at y blynyddoedd, nid dim ond blynyddoedd at fywyd.

Mae clywed gan bobl hŷn am y pethau sydd bwysicaf iddyn nhw yn hanfodol er mwyn helpu i arwain a dylanwadu ar ein gwaith ni, ac rydyn ni eisiau defnyddio Facebook fel llwyfan i gael sgwrs agored a gonest gyda phobl hŷn a rhanddeiliaid ledled Cymru.

Rydyn ni eisiau clywed gan bobl hŷn ynglŷn â beth sy'n gweithio'n dda, a beth sydd angen ei wella. Rydyn ni eisiau i bobl hŷn rannu eu barn am sut brofiad yw mynd yn hŷn yng Nghymru heddiw, a chlywed eu syniadau am y ffyrdd gorau o gyflawni newid oherwydd drwy gydweithio fe allwn ni helpu i wneud Cymru y lle gorau yn y byd i fynd yn hŷn ynddo.

Os hoffech chi gael yr wybodaeth ddiweddaraf am waith y Comisiynydd, mae croeso i chi hoffi, dilyn a rhannu ein tudalen yma: https://www.facebook.com/Comisiynydd-Pobl-H%C5%B7n-Cymru-Older-Peoples-Commissioner-for-Wales-463421591135062/?modal=admin_todo_tour

Ein Hafonydd a'n pysgod.

Un amser bu ein hafonydd yn Sir Gar yn enwog am ei eog, eu sewin a'u brithyll llwyd. Er dagrau'r peth nid yw hyn yn wir bellach, gyda'n pysgod dan fygythiad erbyn hyn. Bu tipyn o son yn ddiweddar am lygredd amaethyddol, ond nid dyma'r unig elyn iddynt mas yn y môr mawr, ar hyd yr arfordir ac i fynnu'r afonydd a'r nentydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mesur cyfoeth afon yn ôl ei ffin gadwriaethol (CL) drwy fesur y nifer o wyau pysgod mewn afon yn ôl ei thymor. Un rheswm pam nad yw afon yn cyrraedd ei nod yw'r nifer o rwystredigaethau sy'n wynebu'r pysgod wrth frwydro lan yr afon i ddodwy tua Mis Hydref ymlaen. Oherwydd nad yw'r coed bellach yn cael eu torri a'u cymhennu mae'r rhai sydd wedi cwmpo yn casglu deunydd plastig a phob math o sbwriel arall. O rwystro taith y pysgod gorfodir hwy i ddodwy eu hwyau mewn mannau sy'n llai manteisiol. Mae hyn yn effeithio ar y nifer o bysgod bach a enir ac sy'n debygol o oroesi.

Gall ychydig goed mewn afon fod o fudd ac yn fwyd ond mae angen rheoli'r sefyllfa'n ofalus gan dirfeddianwyr, rheolwyr a chymdeithasau pysgota. Mae gan Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru gynllun. Mabwysiadu Nant sy'n cael ei gefnogi gan Dwr Cymru ac Adnoddau Cenedlaethol Cymru ac yn weithredol yn ardal y Tywi. Ceisia'r cynllun sefydlu cylch o dirfeddianwyr ac aelodau lleol i gyd-weithio ar y nentydd pwysicaf i'r pysgod - maent yn cynnwys Nant Alltwalis a'r afon Gwili. Ein gobaith yw y bydd y cylchoedd yma o wirfoddolwyr yn cynnig help llaw i glirio'r rwbwl ac annibendod, coed mawr, gelyn fel y balsam himaleuaidd, a chanfod lle mae crydiad neu debygrwydd o orlifo.

Rydym yn barod i gynnig rhaglen o hyfforddiant gan gynnwys sut i adnabod clêr yr afon, sydd mor hanfodol bwysig yn y gwaith. Mae'r glêr hyn fel y dryw lawr y pwll glo, maent yn ymateb yn sydyn iawn i newid yn ansawdd y dŵr. Felly mae par o lygaid lleol yn cadw golwg mas am unrhyw newid yn hollol hanfodol er mwyn canfod nam allai barhau a gwaethygu.

Os ydych am fwy o wybodaethau am ein cynllun neu'n well fyth am wirfoddoli neu ddysgu mwy am ein hafonydd, croeso i chi gysylltu â'n Swyddog y Cynllun Ieuan Davies ieuan@westwalesrivertrust.org

Caersalem

Angel yr Arglwydd a gastella o amgylch y rhai a'i hofnant ef, ac a'u gwared hwynt. Salm 34:7
Cwrdd am 2pm bob Sul. Croeso! Eleri Morris 01267 253895

Gwasanathau Capel Nebo

Hyfref	13/10/19	Parch Roger Thomas	2.00
	27/10/19	Parch Goronwy Evans	10.30
Tachwedd	3/11/19	Parch Wyn Maskell	2.00
	10/11/19	Sul y Cofio Goffa Neuadd	
	24/11/19	Parch Dafydd Morris	10.30
Rhagfyr	1/12/19	Parch John Gwilym Jones	2.00

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion y gwasanaethau am fisoedd Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2019

Hydref 13 2019 Cymundeb am 10.30 y bore Parch Huw George

Hydref 27 2019 Gwasanaeth am 2.00 y.p. Mrs Dwyndwen Teifi

Tachwedd 10 2019 Manylion pellach i ddilyn

Tachwedd 24 2019 Gwasanaeth am 2.00 y.p. Parch Wyn Maskell

Rhagfyr 15 2019 Gwasanaeth Nadolig am 2.00 y.p.

Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas, Ysgrifennydd ar 01267 253686

Pam fi'n mynd i'r Eglwys Mae gennyf atgofion melys o fynychu i Eglwys Sant Celynin pan oeddwn i'n blentyn, ond wrth fynd yn henach aeth yn fwy anodd oherwydd bod yf rhieni mewn gwaith gweinyddol. Byddent yn gweithio bob Sul ac 'roedd angen i mi a fy chwaer gynnig help llaw, felly amhosib oed hi gadw mynd i'r cwrdd. Er hynny ni anghofiais beth olygai'r profiad i mi pan oeddwn i'n blentyn, ynghyd a'r safonau a'r gred sydd wedi aros gyda'r hyd heddiw.

O edrych yn ôl ar fy mywyd sylweddolaf i mi droi fy nghefn ar Dduw gan ganolbwyntio ar bethau eraill yn hytrach nag addoli Duw. Yn ôl fy ngŵr neu fy mhartner ar y pryd, fy nhad mabwysiedig a fy nhad iawn golledig, yr oeddwn wedi eu gadael i gyd lawr. Wrth ganolbwyntio ar bethau materol a threulio'n amser yn ceisio plesio pobl, llanw ryw wagle oeddwn i. Mor awyddus i fod yn boblogaidd a chael fy nerbyn, ond fyth yn llwyddo. Y canlyniad oedd i mi fynd yn anhapus iawn gan encilio wrth bawb a phopeth er mwyn arbed rhagor o boen, cywilydd a chael fy ngwrthod.

Daeth tro ar fydd ar enedigaeth fy merch Elis pan sylweddolais pa mor fendithiol oedd y rhodd yma. Yn fuan wedi ei gen, ddim o ddewis, ces fy ngadael heb dad iddi. Felly sylweddolais bryd hynny pwysigrwydd fy nhynged fel yr unig riant. Gan nad oeddwn am weld hanes yn ail adrodd rhaid oedd i mi gynllunio ei dyfodol. Penderfynais ail adeiladu fy mywyd ac adfywio fy nghred Gristnogol, ac edifar, bod yn agored a rhoi terfyn ar feio fy hun am gamgymeriadau. Wedi'r cwbl dim ond Duw all ein beirniadu. Nid perfffeithrwydd yw'r ateb ond dysgu a symud ymlaen drwy ras Duw, gan fod yn feddwl agored, yn Gristnogol ac yn garedig i bawb. Dechreuais fynd i'r Eglwys unwaith eto flwyddyn yn ôl wedi cyfarfod a'r Parch Gaynor. gan deimlo ysbrydoliaeth a chroeso yn ei geiriau. Hi oedd y Ficer benywaidd cyntaf i mi weld; ei thread ar lawr ac mor frwdfrydig. O'r hyn ddysgaais ganddi a'm hatgofion o'm plentyndod, des i ddeall mwy am Dduw a'i athrawiaeth. Dysgu mwy am y byd a'i bethau, o fewn y gymuned ac am fy hunan, a dod i gysylltu ag unigolion fu mor garedig at Elis a minnau. Cryfhaodd hunanhyder Elis pan aeth i chwarae'r delyn yn yr Eglwys. Dysgu ymddiried a bod yn ostyngedig, dysgu gwerthfawrogi lle'r ydw'i nawr, shwd gyrhaeddes 'mha a pha mor bell fu'r daith. Bod yn ddiolchgar am bopeth, mawr a bychan, a dysgu maddau. Trosglwyddo hyn oll i Elis fel ei bod yn cynnal ei ffydd ac yn trosglwyddo'r athrawiaeth hyn i'w phlant hithau un dydd. Dyna'r gobaith! Rhaid iddi osgoi hunanoldeb sydd mor rhemp yn ein cymdeithas ar hyn o bryd; gwerthfawrogi'r ddynol ryw, y ddaear a grëwyd ac a gynhelir gan Dduw. Sylweddoli hefyd fod yna rym goruwch y gall hi droi ato heblaw fi. Pan oeddwn yn blentyn 'doedd na'r un Gweinidog benywaidd. Diolchaf fod yr Eglwys yng Nghymru bellach yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ordeinio menywod. Rydym yn ffodus fod gennym y Parch Gaynor ac Esgob Joanna yma i drosglwyddo neges y Beibl mewn ffordd mor syml effeithiol yn yr oes sydd ohoni. - Mererid

Details of all our services and events including Christmas services will be published on our Church facebook page Llanpunsaint Bronwydd and Llanllawddog churches and on the church notice boards. All Welcome.

Contact Details Rev'd Gaynor j_gaynor@hotmail.com, mobile 07796049509, Vicarage 01267 253158/

Dewinwyr Gorllewin Cymru - Dyddiau'r Dyfodol -

Sul 27ain Hydref - Peter a Sue Knight – Albion Breddwydiol - Ail-swynio Ynys y Dreigiau.

Sul 24 Ain Tachwedd – Ros Briagha cylchoedd cerrig

Mae dewinio yn ymarfer hynod o ddiddorol a hawdd ei ddysgu a gwnaeth darddu o'r Aifft. Dewisa nifer o gwmnïau ddefnyddio dewinwyr i ganfod mwynau, olew a gwifrau trydan. Dewinia rhai pobl am ddiogelwch eu bwyd ac am straen geopathic yn eu hamgylchfyd ond hyd yn hyn agwedd bersonol yw heb gadarnhad gwyddonol. Dewch atom i Neuadd Bronwydd am 1.45 y.p. ac am £4 cewch baned yn y fargen. Does dim angen cyfarpar felly cysylltwch â Sandy ar 01267 253547

Gofal Traed

Dyma ddyddiadau'r ddau glinig nesaf yn y Neuadd Goffa am 10 o'r gloch y bore ar y 16/10, 11/12.

Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwynytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis).

Curad Calon Llanpumsaint

Dyma'r criw bach fu'n gyfrifol am sefydlu 4 Adfywiwr mewn gwahanol safleoedd yn yr ardal –

Tu fas y Neuadd Goffa SA33 6BZ

Tu fas Tafarn y Railwe SA33 6BU

Ar wal Fferm yr Henfryn tua Ffynnonhenri SA33 6LD

Tu fas Festri Capel Nebo. SA33 6HN

Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Cafwyd cwmni siardwr gwâdd yng nhyfarfod Mis Medi o'r Cyngor; Ieuan Davies o Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru ac yn ei gyflwyniad, disgrifiodd gyflwr yr afonydd sydd ym mhlwyf Llanpumsaint; y Gwili a Nant Alltwallis a'r pryder sydd fod y rhwystrau sydd ynddynt yn amharu ar allu pysgod fel y samwn a'r siwin rhag cyrraedd y manau lle yr oeddynt yn dodwy eu wyau.

Mae Ieuan ei hun wedi ysgrifennu erthygl i Llyll ac nid oes angen ail-adrodd yn y pwt bach byr yma ond dywedwyd wrth y Cyngorwyr fod nifer o goed wedi syrthio i'r afonydd, lle nad oedd hyn yn digwydd yn yr oes a fu oherwydd mi fyddai tir feddiannwyr yn hela'r coed oddi yno a'u defnyddio fel tanwydd ond erbyn hyn, mae'r coed yn aros yn yr afonydd ac yn creu cynefinoedd newydd sydd yn creu fwy fyth o anhawsterau i'r pysgod rhag cyrraedd pen eu taith hirfaith.

Cytunodd y Cyngorwyr mai trefnu cyfarfod agored fyddde'r ffordd ore i gynyddu ymwybyddiaeth o'r angen sydd i lanhau'r afonydd, ac i rhoi cyfle i Ieuan i ofyn am wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r gwaith o adfer y llwybrau dyfrllyd. Felly, llogwyd y Neuadd Goffa ar gyfer Nos Fercher yr 23ain o Hydref, gyda'r cyfarfod yn cychwyn am 7.30.

O dan 'Gohebiaeth' ar agenda'r cyfarfod, soniwyd fod Adran Priffyrdd Cyngor Sir Gâr yn cynllunio ail osod arwynebedd heol Rhiw Graig, a daeth hyn fel tipyn o syndod i bawb oherwydd tan yn ddiweddar iawn, dywedwyd fod dros 500 o heolydd yn y Sir yn aros am welliannau sylweddol ac i Rhiw Graig fod tua rhif 90 ar y rhester! Er mwyn cael gwneud y gwaith o osod wyneb newydd ar y darn heol sydd yn ymestyn o'r cyffordd gyda'r B4310 a ffarm Lleine, mi fydd rhaid cau'r ffordd am gyfnod o 5 niwrnod, ac mi fydd y cyfnod hwnnw yn cychwyn ar yr 28ain o Hydref, sef wythnos Hanner Tymor. Ni fydd pawb wrth gwrs yn gorfoleddu fod Rhiw Graig unwaith eto yn llyfn a gwastad; ystyrier y peiriannwyr a chwmnïau teiars fydd ar eu colled.....!

Phil Jones 01267253512, clerk@llanpumsaint.org.uk/communitycouncil

YNGHYLCH : CAU FFORDD DROS DRO – C1301 BRONWYDD (The Graig)

Mae cais wedi dod i law am gau dros dro yr C1301 ym Mronwydd, o'i chyffordd â'r B4301 am bellter o 886 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.

Mae angen cau'r ffordd er mwyn i Gyngor Sir Caerfyrddin osod wyneb newydd ar y ffordd o 0800 o'r gloch ddydd Llun 28 Hydref 2019 am gyfnod o 5 diwrnod.

Y ffordd arall ar gyfer traffig sydd am deithio tua'r de-ddwyrain fydd mynd tua'r gogledd-orllewin ar hyd yr C1301 hyd at ei chyffordd â'r U5552. Wrth y gyffordd, troi i'r dde a theithio tua'r de-ddwyrain ar hyd yr U5552 (gan basio Siop Penbontbren a Glancorwg) hyd at ei chyffordd â'r B4301. Wrth y gyffordd, troi i'r dde a theithio tua'r de-orllewin ar hyd y B4301 i ddychwelyd i fan sydd i'r de-orllewin o'r man lle mae'r ffordd ynghau. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio i'r gogledd-orllewin.

Andrew Morgan, Traffic Engineer, Carmarthenshire County Council

Cipolwg cyn dyddiau'r Gwasanaeth Iechyd

Ychydig amser 'nol dangosodd John Hopkins, nawr yn byw'n Nghwmdwyfran, lyfr diddorol iawn i mi, fu'n eiddo i'w dad. Yn 1937 apwyntiwyd Dyfrig Hopkins yn Gofrestrydd Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau dros blwyfi Cynwil a Llanpumsaint. Bu Is-Swyddfa ganddo yn Gwili Terrace Llanpumsaint. Yn ychwanegol i hynny gofynnwyd iddo fod yn gyfrifol am rywbeth newydd sbon, sef Cymdeithas Nyrsio Cynwil a Llanpumsaint.

Ar y cychwyn mudiad trefol oedd y *District Nursing Associations*, ond erbyn tridegau'r ganrif ddiwethaf, ymledi wnaeth i'r ardaloedd gwledig. Yn 1931 gwelwyd deg ohonynt yn Ne Cymru gyda chwech arall yn y gogledd. Felly beth o'n nhw'n wneud a shwd o'dd pethe'n gwitho? Jobyn Dyfrig Hopkins oedd dewis casglwyr i fynd o amgylch y gwahanol ardaloedd yn flynyddol i ofyn ym mhob tŷ a fferm am gyfraniadau i gronfa, arbennig. Byddai hyn yn galluogi'r Gymdeithas i gyflogi Nyrs i'r ardal, am ryw £70 o gyflog y flwyddyn. Awgrymwyd nod o isaf- swm o geiniog yr wythnos ond mi fyddai'r mwyafrif yn gallu fforddio tipyn mwy na hynny. Gan fod ei wraig yn gwasanaethu ardal Bwlchnewydd gwyddai Dyfrig fod y Nyrs yn gorfod ymateb i alwadau amrywiol a di-ri dros ardal eang. 'Roedd y Diclein (TB) yn elyn mawr, holl heintiau'r plant o'r frech goch, y pŵs a'r dwymyn doben yn hawlio sylw, ac yn aml iawn hi oedd y fydwraig hefyd.

Yn y Llyfr Cownt ceir manylion hynod o ddiddorol am y cyfnod 1937-45. Rhannwyd Cynwil a Llanpumsaint i nifer o unedau bychan gyda chasglwyr oedd yn barchus ac yn adnabyddus i'w cynefin yn gyfrifol am gnocio'r drysau. Bu tri ohonynt yn Gynghorwyr Sir leol ar wahanol adegau. Wil Phillips Gilfachyestyn oedd yn gyfrifol am Flaen-y-coed, J J Evans yn casglu am orllewin Cynwil tua Ffynnonhenri, gyda D J Richards Llwyncroes yn troedio ardal Nebo. Dangosodd y tair esiampl dda drwy roi £1-1-0 yr un bob blwyddyn. O amgylch pentre' Llanpumsaint gwelwyd enwau Mrs Ifans Gwelfryn, Henry Howells Waunyrhelfa, Glyndwr Jones Penbontbren a Jase Jones siop Gwili Vale yn casglu, gyda Willie Ifans Parke yn gyfrifol am ardal Bronwydd. Cyfrannodd nifer fawr ddeg swllt y flwyddyn, y llai cyfoethog pum swllt, ond ben ag ysgwydd yn uwch na neb arall oedd £2-2-0 Decima Morgan Lewis, gwraig y Ficer, yn Llanpumsaint bob tro. Dros y cyfnod bu dros 500 o gartrefi'n cyfrannu i'r Gymdeithas.

Yn cydweithio gyda'r meddygon lleol, weithiau'n gorfod dygymod ac arferion traddodiadol ac amheus cefn gwlad, a chyrraedd cartrefi anghysbell, nid oedd swydd y Nyrs yn un rhwydd iawn. Gyda milltiroedd diarffordd rhwng galwadau, ac mewn oes cyn hyd yn oed y bocs ffôn, anodd oedd hi i gyrraedd claf mewn pryd. Daeth cynnig o feic gan y Cyngor Sir yn help. Er hynny yn yr hen gymdeithas wŷr wledig, yn hen gyfarwydd ag edrych ar ôl eu gilydd; naill ar gefn ceffyl neu mewn trap a phoni daeth cynnig lift i'r Nyrs yn rhan o'r diwylliant. Erbyn 1945 penderfynwyd y dylai hi gael ei chario o un lle i'r llall mewn car. Rhyddhad! Gallai ymateb i fwy o alwadau mewn diwrnod, a hefyd ei gweld y rhwyddach i gario gatre yr holl ddanteithion oddi wrth deuluoedd diolchgar. Ie! Tato, llysiau, ambell darten a darnau blasus o gig moch.

Cyn hir clywyd y plant ar yr iard yn ceisio ynganu gair newydd Saesneg arall. Daeth *Innoculation* i roi ergyd marwol i lawer o'r hen heintiau fu'n bla mewn ysgolion. Daeth meddyginiaethau cyfoes i arbed bywyd, a daeth y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn 1948 i agor cwys newydd yn erbyn afiechyd. Da o beth, ond rhaid peidio anghofio'r ymdrech a'r ffordd wnaeth yr hen gymdeithas lwyddo i edrych ar ôl pobl ore gallent.

Amryn 2019




Village Voice October 2019

Copy Date for next Edition 24th November 2019

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY
 Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund provides some funding for Village Voice



September Butterflies – Small Tortoiseshell




Painted Lady



Dowsers at Standing Stone on Mynydd Llangendeirne



New Polytunnel cover at Allotment Site




Extracts from Nursing Association Register

Llanpumpaint. Dist 4.
Collection T Jones Llwynneilyn
Glyndwr Jones, Penbontbren.

1938.

Mr Tom Jones, Waun	5 0
" Josiah Davies, Bryn	10 0
" Ed J. Jones, Hwchgwiili	5 0
" Owen Jones. Llwynnecryddod	5 0
" James. Mill Farm	10 0
" G. Jones. Penbontbren	5 0
" T. Jones Llwynneilyn	5 0
" Thomas, Pantillyn	10 0
Miss M. Howells. Pencilgân	5 0
Mr Tom Jones, Egeit x allgaredig	10 0
Mr J. Thomas Pontas. Sarn P.O. y Llanllawddog	5 0
" Abel Rees " " " " J. ddog.	5 0



Diversion for Graig closed 28th October for 5 days

Swper Caws a gwin,
Cheese and wine
supper


£6
plus bingo tickets

30 November/ Tachwedd
6.30pm
Neuadd Llanllawddog
Llanllawddog Church Hall.
Canu canauon Nadolig
Christmas sing-a-long

Tickets from church members



What a whopper!



The final climb to the top of Pen y Fan

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Monday and Thursday from September 2nd Short Mat Bowls 7.30 – 9.30 Memorial Hall
Every Tuesday 2.00 – 3.30 Village Circle Llanpumsaint Church
Every Tuesday 'Fitness Fun' at the Memorial Hall at 6.30 pm. £4 per 1-hour session.
Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643
Every Wednesday 10.45- 11.45 Mobile Library outside Memorial Hall, details 224830
Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall from 12th September
Every Tuesday 2.00 – 4.00 and Friday 1.00 – 3.00 Mobile Post Office, layby Bryn y Wawr
Every Friday 11.15 – 12.15 Mobile Post office Outside Bronwydd Hall
Every Third Monday – Merched y Wawr Memorial Hall
Every Friday 10.00 – 12 noon Ti a Fi sessions Cylch Meithrin Bronwydd Hall
Every Second Saturday in the month, Monthly Market 10 – 12 Llanllawddog Church Hall
October 9 Wednesday 7.00 Supper Club Railway Inn – phone 253643 to book
October 12 Saturday 7.00 Tribute Night Olly Murs Memorial Hall
October 15 Tuesday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn £5 per head
October 16 Wednesday 10.00 Foot Clinic Llanpumsaint Memorial Hall
October 16 Wednesday 3.30 – 5.00 Open Church Llanpumsaint
October 23 Wednesday 7.30 Open Meeting West Wales Rivers Trust, Memorial Hall
October 27 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall
October 28 Monday Clwbgwili 60+ 2.00 Bronwydd Hall
October 29 Tuesday 7.30 Choir's 40th Anniversary Supper and Entertainment Memorial Hall
November 4 – 8 Turkey and Tinsel Break to Newquay Club Gwili 60+
November 6 Wednesday 8.00 Community Council Meeting Memorial Hall
November 10 Sunday 10.45 Community Remembrance Service Memorial Hall
November 11 Monday 3.30 – 5.00 Open Church Llanpumsaint
November 13 Wednesday 7.00 Supper Club Railway Inn - phone 253643 to book
November 16 Saturday 2.00 – 5.30 Christmas Fair Bronwydd Hall – phone Jean 234868 to book a table
November 19 Tuesday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn £5 per head
November 20 Wednesday Christmas Shopping Trip to Cribb's Causeway Club Gwili 60+
November 24 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall
November 24 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn
November 25 Monday Clwbgwili 60+ 2.00 Bronwydd Hall
November 27 Wednesday 7.00 Fundraising Event Ukele Band Hollybrook Inn
November 30 Saturday 6.30 Christmas Supper & Bingo Llanllawddog Church Hall
December 7 Saturday 11.00 – 2.00 PTA Christmas Fair Memorial Hall
December 7 Saturday Choir Celebration Christmas Concert
December 11 Mystery Trip/Christmas Dinner Club Gwili 60+
December 11 Wednesday 10.00 Foot Clinic Llanpumsaint Memorial Hall
December 12 Thursday 3.30 – 5.00 Open Church Llanpumsaint
February 1 Saturday Annual Choir Concert Tabernacl Chapel Carmarthen

***Llanpumsaint Memorial Hall – to book phone Celt Thomas on 07944793133 or through email
Llanpumsaintmemorialhall@gmail.com***

Head to Toes Footcare The next sessions in the Memorial Hall are on Wednesdays 16/10, 11/12. New clients should contact Gary Robinson any weekday evening between 6 – 8pm on 07789344488, as should any existing client wishing to cancel (at least 24hrs notice, please)

Community Shop Update

A keen group of village residents have met to discuss possible ways of making steps towards opening a community shop in the village. A long list of actions has been written of places to visit, people to speak to and paperwork to complete.

We are hoping that a feasibility study will confirm the wishes of the community in supporting the shop as a volunteer or customer, and the benefits this may bring. This is in the process of being arranged, so please participate in any survey or consultation that comes your way. We want to hear your views and ideas!

So work is going on behind the scenes, and we will be providing regular updates through the village voice.

If you would like to be part of the working group please contact us with your email address, otherwise watch this space for other ways to get involved. Contact Rosie Frewin Rosie.Frewin@yahoo.co.uk

Clwbgwili 60+ Club Bronwydd

The club has just held its Annual General Meeting at Bronwydd Hall this week with 54 members present. It was a very successful meeting when all the committee were re-instated for another year. There were several new club members this year again. The Chairman Mr Peter Giles said that the club had been on four day trips this year with another planned in November going to Cribbs Causway, Bristol. The Christmas Dinner is combined with a Mystery Trip which is planned for December. The 5- day break (Turkey and Tinsel) is going to Newquay, Cornwall this year and the members are looking forward to that.

Club Meetings

Monday 28th October at 2pm, Mr Gareth Richards will be with us showing "A Taste of Autumn "

Monday 25th November at 2pm Mr Ralph Carpenter will be with us talking about "Press Photography". It is always extra special when one of our members is giving the talk.

There is no meeting in December as we hold our Christmas Dinner.

New members are always welcome at our meetings and the cost of membership for the year is £7.50

Any queries contact Val Giles on Tel no 01267 281194 Club Secretary

LLANPUMSAINT WELFARE AND RECREATION ASSOCIATION

Macmillan Cancer Care Coffee Morning

This was held on Saturday morning 21 September at the Memorial Hall and despite the disappointing turnout the sum of £245 was raised for this important charity. Thanks must go to Rees Electricals for sponsoring the event and also to the many donations of cakes and raffle prizes.

Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund

